# 5.0 Llywodraethu ac Ymddiriedolwyr

## Recriwtio, Dethol a Sefydlu

## Trosolwg


1. Cyflwyniad
2. Proses recriwtio a sefydlu pum cam
3. Adnoddau
4. Gwybodaeth bellach


## Cyflwyniad

Recriwtio, dethol a sefydlu'r bobl sydd ar eich bwrdd neu bwyllgor rheoli yw un o'r prosesau pwysicaf y gall mudiad gwirfoddol ei wneud.

Bydd bwrdd cytbwys ac amrywiol yn darparu cyfeiriad ac yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu'r mudiad.



Llun: Cyfweliad recriwtio

**Noder**: Er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd, bydd aelodau o fudiadau gwirfoddol ac elusennau cofrestredig yn y DU yn cael eu cyfeirio atynt fel '**ymddiriedolwyr**' yn y daflen wybodaeth hon. Efallai cyfeirir atynt fel rhywbeth arall yn eich dogfen lywodraethu, ond yr hyn a olygwn yw'r bobl sydd â'r cyfrifoldeb dros redeg y mudiad yn y pen draw.

Mae bwrdd effeithiol yn ganolog i lywodraethu da. Oherwydd hyn, mae'r **Cod Llywodraethu i Elusennau** yn gosod pwyslais mawr ar reoli'r broses recriwtio, dethol a sefydlu mewn ffordd strwythurol.

> 'Mae'r bwrdd yn cael effaith fawr ar ba mor ffyniannus fydd elusen. Mae'r naws y mae'r bwrdd yn ei gosod drwy ei arweinyddiaeth, ei ymddygiad, ei ddiwylliant a'i berfformiad cyffredinol yn hollbwysig i lwyddiant yr elusen. Mae'n bwysig mynd ati'n drylwyr i recriwtio, a rheoli perfformiad a datblygiad ymddiriedolwyr, ac i ymdrin ag ymddygiad y bwrdd yr un mor drwyadl. Mewn tîm effeithiol, mae aelodau o'r bwrdd yn teimlo ei bod yn ddiogel awgrymu, cwestiynu a herio syniadau a rhoi sylw i bynciau anodd, yn hytrach na'u hosgoi.'
>
> **Cod Llywodraethu i Elusennau, Egwyddor 5: Effeithiolrwydd y Bwrdd**

Mae'r **Comisiwn Elusennau** wedi gosod pwyslais penodol ar y pwnc hwn yn ei ganllawiau craidd cynhwysfawr **Cael hyd i Ymddiriedolwyr Newydd (CC30)**, sy'n nodi'r canlynol:

Mae ymddiriedolwyr yn chwarae rôl hanfodol yn llywodraethiant elusennau. Mae ganddynt lawer i'w gyfrannu hefyd i'w llwyddiant. Er enghraifft, gallant:

- Fod yn gyfrwng cyfathrebu â chymunedau y mae elusen yn bodoli i'w gwasanaethu
- Dod â phrofiad proffesiynol neu brofiad arall gwerthfawr i elusennau
- Helpu i sicrhau bod elusennau'n cael eu rheoli'n dda drwy benodi uwch staff gweithredol

Mae **Rhwydd hynt trwy ddechrau da: Recriwtio a Sefydlu Ymddiriedolwyr (RS10)** hefyd yn nodi:

Yn ein profiad ni, mae byrddau ymddiriedolwyr yn fwy tebygol o:

- Recriwtio'n llwyddiannus os ydynt yn gwneud hynny mewn ffordd agored a thryloyw, gan ofalu i beidio â gorbwysleisio neu dan-bwysleisio'r cyfrifoldebau;
- Gweithredu'n llwyddiannus os ydynt yn cynnig rhaglen sefydlu gynhwysfawr sy'n cynnig yr wybodaeth allweddol y mae ei hangen ar ymddiriedolwyr newydd er mwyn rhedeg yr elusen;
- Ennyn ffydd a pharch eu cleientiaid a'r gymuned ehangach os ydynt yn dangos amrywiaeth yn yr ystyr ehangach o sgiliau, oedran, rhyw, hil a chefndir

Mae llawer o resymau dros recriwtio ymddiriedolwyr a llawer o ffyrdd o fynd ati i wneud hyn, ond mae'n bwysig cadw golwg ar natur hanfodol ymddiriedolaeth. Mae'r nodweddion sy'n gwneud ymddiriedolwr da wedi'u crynhoi'n dda yn **Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus** a osodwyd gan y **Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus**, a gadeiriwyd ar y pryd gan yr Arglwydd Nolan:

- Anhunanoldeb
- Unplygrwydd
- Gwrthrychedd
- Atebolrwydd
- Didwylledd
- Gonestrwydd
- Arweinyddiaeth

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar lywodraethu a dyletswyddau ymddiriedolwyr yn ein taflenni gwybodaeth:
**5.1 Egwyddorion llywodraethu**

## Proses recriwtio a sefydlu pum cam

Mae'r dull hen ffasiwn o recriwtio 'ar lafar' wedi cael ei ddisodli'n ddiweddar gan ddull mwy ffurfiol o recriwtio ymddiriedolwyr, sydd bellach yn cael ei argymell yn gryf.

Mae nifer o ffactorau amrywiol wedi achosi hyn, gan gynnwys yr angen i dargedu ymddiriedolwyr â sgiliau penodol, pwysigrwydd creu bwrdd amrywiol, mwy o alw cyffredinol am ymddiriedolwyr a phryderon ynghylch atebolrwydd personol. Gall mabwysiadu dull recriwtio a sefydlu ffurfiol eich helpu i ddod o hyd i'r ymddiriedolwyr rydych chi eisiau, a sicrhau eich bod yn gweithredu'r broses o fewn gofynion y gyfraith a'ch dogfen lywodraethu.

WWW

**Dolen Allanol**
Mae'r elusen **Getting on board** yn darparu canllawiau gwych ar recriwtio ymddiriedolwyr:
Canllawiau Recriwtio Ymddiriedolwr - Getting On Board

### Cam 1 – y broses gynllunio

- Adnabod yr angen am ymddiriedolwyr newydd. Gall hyn fod oherwydd swyddi gwag o fewn y mudiad drwy ymddiswyddiadau, gan fod yr ymddiriedolwyr cyfredol yn penderfynu bod angen sgiliau penodol ychwanegol a/neu fwy o amrywiaeth i helpu i redeg y mudiad yn fwy effeithiol, neu gan fod angen cynrychiolaeth ehangach o randdeiliaid ar y bwrdd.

**Noder**: ni all unrhyw un dan 18 oed fod yn ymddiriedolwr elusen neu fudiad anghorfforedig, ond gall fod yn gyfarwyddwr cwmni elusennol

- Asesu sgiliau'r ymddiriedolwyr presennol ac adnabod unrhyw 'fylchau' drwy wneud Archwiliad Sgiliau. Mewn mudiadau llai, gall hyn fod yn weddol anffurfiol, ond yn y rhai mwy, dylid mabwysiadu proses mwy ffurfiol. Dylid adolygu sgiliau, profiad a mewnbwn yn rheolaidd, a chynllunio ymlaen llaw ar gyfer swyddi gwag posibl.
- Cytuno ar ba sgiliau, profiad a gwybodaeth sydd eu hangen, ac ysgrifennu'r cyfan ar ffurf disgrifiad rôl a manyleb person byr, gan nodi dadansoddiad realistig o'r dyletswyddau a'r ymrwymiad amser.
- Meddwl am hygyrchedd ac amrywiaeth. Sut byddwch chi'n annog amrywiaeth ehangach o bobl o gefndiroedd gwahanol i wneud cais am y rolau? A ydych chi eisiau annog pobl o gefndiroedd penodol (lle nad oes gan eich bwrdd gynrychiolwyr ohonynt) i wneud cais?

- Cytuno ar gyfrifoldebau a phroses recriwtio, gan ofalu cydymffurfio ag unrhyw ofynion neu gyfyngiadau penodol a nodir yn y ddogfen lywodraethu megis:
  - Meini prawf cymhwyster
  - Cyfyngiadau ar bwy ddylid ei apwyntio
  - Etholiadau
  - Hawliau cyfethol
  - Cyfnodau rhybudd
  - Ymddiriedolwyr sefydliadol

Gellir dirprwyo peth o'r gwaith i is-grŵp o ymddiriedolwyr, ond y bwrdd cyfan sy'n parhau i fod yn gyfrifol am y broses ac unrhyw benderfyniadau a wneir.

## Cam 2 – y broses recriwtio

Ystyriwch y dulliau gorau o ddenu ystod amrywiol o ymgeiswyr sydd â'r sgiliau rydych chi wedi'u nodi sydd eu hangen ar y mudiad:

- Ewch ati i greu pecyn recriwtio gyda gwybodaeth am eich mudiad, y disgrifiadau rôl a chyfarwyddiadau clir ar sut i wneud cais. Defnyddiwch iaith glir ac eglurwch pa dreuliau, cymorth a hyfforddiant fydd yn cael eu darparu
- Hysbysebwch yn eang. Gall hyn gynnwys hysbysebu yn y wasg leol a/neu arbenigol a defnyddio gwasanaethau broceriaeth ymddiriedolwyr. Ystyriwch ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r rolau, yn enwedig os ydych chi'n gobeithio denu ymddiriedolwyr iau. Ystyriwch gynnal noson agored ymddiriedolwyr i alluogi pobl â diddordeb i ddysgu mwy am eich mudiad
- Lluniwch restr fer a chynnal cyfweliadau yn ôl meini prawf cytûn. Dylai'r cyfweliadau gael eu cynnal gan banel bach o ymddiriedolwyr, a dylid gofyn cwestiynau tebyg i bob ymgeisydd er mwyn sicrhau dull teg a chyson. Gellir sgorio'r ymgeiswyr yn ôl y fanyleb person rydych wedi'i llunio (nodyn am hyn uchod), a dylid cadw nodiadau sy'n ymwneud â phob cyfweliad ar ffeil.
- Nodwch yr ymgeisydd/ymgeiswyr gorau a'u gwahodd i dderbyn y penodiad, yn amodol ar eirdaon, prosesau dilysu ffurfiol a chymeradwyaeth gan y bwrdd llawn. Rhowch wybod i'r ymgeiswyr aflwyddiannus a diolch iddynt am eu diddordeb. Ystyriwch a allech gynnig cyfle arall i'r ymgeiswyr aflwyddiannus yn eich mudiad, fel gwirfoddolwr er enghraifft.

**Syniad Da**

Gallwch hefyd hysbysebu manylion cyfleoedd cyfredol i fod yn ymddiriedolwyr am ddim drwy wefan Gwirfoddoli Cymru

## Cam 3 – y broses ddethol

- Gwiriwch nad yw'r ymgeiswyr wedi'u anghymhwyso rhag gweithredu fel ymddiriedolwyr o dan adrannau 178-180 o **Ddeddf Elusennau 2011**, a gofynnwch i'r ymgeiswyr gadarnhau hyn drwy lofnodi ffurflen Datganiad, cymhwysedd a chyfrifoldeb.
- Gofynnwch i'r ymgeiswyr ystyried a datgan unrhyw wrthdaro buddiannau cyfredol neu bosibl yn y ffurflen Ddatganiad uchod.
- Gwnewch unrhyw wiriadau cofnodion troseddol angenrheidiol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd os yw'ch mudiad yn gweithio gyda phobl ifanc neu bobl sy'n agored i niwed.

Gellir cael rhagor o fanylion yn ein taflenni gwybodaeth:
**4.9 Gwirfoddoli i weithio gydag oedolion sy'n agored i niwed a phlant**

- Penderfynwch fynd ati i benodi ymddiriedolwyr newydd yn ffurfiol os yw'r gwiriadau, y datganiadau a'r datgeliadau i gyd yn foddhaol.

**Dolen Allanol**

Mae gan **ICSA (Y Sefydliad Llywodraethu)** ganllawiau defnyddiol ar gymhwysedd ymddiriedolwyr:
Canllawiau Cymhwysedd Ymddiriedolwr - ICSA

## Cam 4 - y broses benodi

- Gwiriwch y ddogfen lywodraethu i sicrhau bod yr ymddiriedolwyr newydd yn cael eu penodi yn ôl y gweithdrefnau a'r cyfyngiadau a nodir ynddi.
- Ysgrifennwch at y darpar ymddiriedolwyr (y cadeirydd sy'n gwneud hwn fel arfer) yn nodi'u dyletswyddau (gan ddefnyddio'r disgrifiad rôl y soniwyd amdano uchod), a disgwyliadau'r mudiad. Gofynnwch iddynt lofnodi a dychwelyd copi o'r llythyr fel arwydd eu bod yn derbyn.
- Anfonwch becyn sefydlu llawn ynghylch y mudiad. Os oes llawer o ddeunydd, efallai dylech anfon ychydig ar y tro i osgoi gorlwytho'r ymddiriedolwyr newydd? Er y bydd cynnwys penodol pecyn sefydlu yn amrywio o un mudiad i'r llall, bydd pecyn o'r fath yn cynnwys y canlynol yn aml:
- Hanes byr y mudiad
- Copi o'r ddogfen lywodraethu
- Enw, manylion cyswllt, hyd y swydd a bywgraffiadau byr yr ymddiriedolwyr, swyddogion anrhydeddus ac ysgrifennydd y cwmni lle'n berthnasol
- Unrhyw ddisgrifiadau rôl cytunedig a chod ymddygiad ar gyfer ymddiriedolwyr
- Rhestr o bwyllgorau a'u haelodaeth, gyda chopïau o'u cylch gorchwyl
- Amserlen y cyfarfodydd am y flwyddyn gyfredol
- Copi o gynllun strategol neu fusnes y mudiad
- Copïau o'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol diweddaraf, y cyfrifon rheoli diweddaraf, a chopi o lythyr yr archwilydd at yr ymddiriedolwyr ar ddiwedd yr archwiliad diwethaf ynghyd ag unrhyw ateb neu ddogfen weithredu
- Cofnodion tri chyfarfod diwethaf yr ymddiriedolwyr
- Siart o'r mudiad a rhestr o gyflogeion (os oes gweithwyr)
- Copïau o bolisïau ac archebion sefydlog cyfredol
- Manylion cyswllt ymgynghorwyr proffesiynol a ddefnyddir gan y mudiad, ynghyd â gwybodaeth bancio berthnasol
- Crynodeb o fuddsoddiadau ac yswiriant y mudiad, ynghyd â manylion daliadau eiddo mawr
- Manylion prif gyllidwyr a chontractau
- Manylion unrhyw ymlyniadau neu rwydweithiau, a rhestr o fudiadau defnyddiol sy'n cynnig cymorth a hyfforddiant
- Copi o lyfryn y **Comisiwn Elusennau**, **Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: beth mae angen i chi ei wybod (CC3)**
- Copi o'r Cod Llywodraethu i Elusennau neu ddolen ato

- Rhowch wybod i'r holl bobl berthnasol, fel cyllidwyr, cyfreithwyr ac archwilwyr y mudiad, am y penodiadau newydd.
- Sicrhewch eich bod yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol megis rhoi gwybod i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau, pan fo'n berthnasol.

## Cam 5 – y broses sefydlu

- Trefnwch broses sefydlu llawn ar gyfer yr ymddiriedolwr/ymddiriedolwyr newydd yn seiliedig ar y pecyn sefydlu, y dylid ei lunio i roi gwybod iddynt am ddibenion y mudiad, y safle ariannol, rhaglenni gwaith, strwythur, staff a materion cyfredol.
- Trefnwch gyfarfodydd gyda'r ymddiriedolwyr presennol a phobl eraill sy'n gysylltiedig â'r elusen, fel y prif swyddog, aelodau allweddol o'r staff, gwirfoddolwyr, buddiolwyr a rhanddeiliaid.
- Ystyriwch benodi ymddiriedolwr profiadol cyfredol fel mentor.
- Rhowch groeso ffurfiol i'r ymddiriedolwyr newydd pan fyddant yn mynychu eu cyfarfod bwrdd cyntaf.
- Ystyriwch gyfarfod un-i-un gyda'r cadeirydd ar ôl cyfarfodydd cyntaf yr ymddiriedolwyr er mwyn trafod unrhyw gwestiynau neu faterion a all fod wedi codi.
- Ystyriwch ddigwyddiad cymdeithasol neu ddiwrnod cwrdd i ffwrdd ar ôl y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol nesaf i helpu i feithrin ymdeimlad o dîm a galluogi'r ymddiriedolwr/ymddiriedolwyr newydd i ddod i adnabod yr ymddiriedolwyr cyfredol mewn lleoliad mwy anffurfiol.

Yn naturiol, bydd rhaid darparu hyfforddiant cychwynnol a pharhaus er mwyn sicrhau bod ymddiriedolwyr newydd yn gallu gwneud cyfraniad effeithiol i'r mudiad, gellir gwerthuso hyn mewn nifer o ffyrdd.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn ein taflen wybodaeth:
**5.5 Hyfforddi a datblygu ymddiriedolwyr**

## Adnoddau

Mae llawer o fudiadau yn cynnig adnoddau defnyddiol yn rhad ac am ddim, megis disgrifiadau rôl ymddiriedolwr enghreifftiol, manylebau unigolion, rhestri pecynnau sefydlu, polisïau gwrthdaro buddiannau, datganiadau ymddiriedolwyr ac ati. Er bod y rhain yn ddefnyddiol dros ben, mae hi bob amser yn bwysig ystyried y sefyllfa sydd ohoni ac anghenion eich mudiad, a theilwra unrhyw ddogfennau enghreifftiol i weddu i'ch amgylchiadau eich hun. Rhestrir nifer o'r mudiadau sy'n cynnig adnoddau o'r fath isod.

## Gwybodaeth bellach

**Gwirfoddoli Cymru**
**Gwirfoddoli Cymru**
www.gwirfoddolicymru.net

---

**Recruit 3**
**Source**
www.recriut3.org.uk

---

**CC30 Cael hyd i Ymddiriedolwyr Newydd - Yr hyn y mae angen i elusennau wybod**
**Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr**
https://www.gov.uk/government/publications/finding-new-trustees-cc30

---

**RS10 - Rhwydd hynt trwy ddechrau da: Recriwtio a Sefydlu Ymddiriedolwyr**
**Comisiwn Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr**
https://www.gov.uk/government/publications/start-as-you-mean-to-go-on-rs10

---

**Recriwtio Ymddiriedolwyr**
**NCVO**
https://knowhow.ncvo.org.uk/tools-resources/board-basics/tools-and-guidance/recruitment

---

**Getting on Board**
**Getting on Board**
https://www.gettingonboard.org/

---

**ICSA: The Chartered Governance Institute**
**ICSA**
https://www.icsa.org.uk/knowledge

## Gwybodaeth bellach

**Small Charities Coalition**
**Small Charities Coalition**
https://www.smallcharities.org.uk/

---

**Prospectus**
**Prospectus**
www.prospect-us.co.uk

---

**Egwyddorion Nolan ar Fywyd Cyhoeddus**
**Safonau Cyhoeddus**
www.public-standards.gov.uk

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Sector Cymru
Third Sector
Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.